Ned Thomas
Cadeirydd Dyddiol Cyf.

Mawrth 13eg, 2008.

Annwyl Ned,

Diolch am ymhelaethu yn eich llythyr diweddar.

Hoffwn eich sicrhau nad ydw i yn camddeall natur eich cwyn. Mae yna wahaniaeth barn rhyngddom oherwydd nad ydw i'n cytuno â sail eich cwyn. Rydych chi hefyd efallai yn anwybyddu oblygiadau cyfraith enllib.

Fel yr ydw i eisoes wedi pwysleisio, fe gyflwynwyd Aled Eirug a Marc Jones yn y modd mwyaf addas oedd yn amlinellu i'r gwyliwr beth oedd eu cymwysterau nhw i gyfrannu i'r drafodaeth.

Buasai dweud bod Marc Jones yn gweithio i Blaid Cymru yn gallu awgrymu ei fod e mewn rhyw ffordd yn lefarydd ar ran y Blaid, neu yn mynegi'r farn hon er mwyn cyflwyno safbwynt Plaid Cymru drwy'r drws cefn. (Fel y gwyddoch, dyw Plaid Cymru ddim wedi bod yn gwbwl unfarn ar y mater yma beth bynnag, a theg fyddai nodi hefyd bod Marc Jones wedi codi cwestiynau am Y Byd cyn dechrau gweithio i Blaid Cymru). Ond y pwynt pwysicaf efallai yw y buasai awgrymu bod Marc Jones yn gwneud y sylwadau yma oherwydd ei fod e bellach yn gweithio i Blaid Cymru yn gallu arwain gwylwyr i amau ei gymhellion, ac felly'n gallu bod yn enllibus. Rwy'n nodi unwaith eto bod Marc Jones wedi cwyno eisoes pan wnaed awgrym tebyg i'ch un chi ar flog Dyfrig Jones, a bod hwnnw wedi ymddiheuro am wneud yr awgrym.

Mae'r un peth yn wir am Aled Eirug. Buasai dweud ei fod yntau yn gweithio i Lywydd y Cynulliad yn gallu rhoi'r argraff gamarweiniol ei fod e'n lleisio barn Dafydd Elis Thomas. Yr unig reswm dros ei gyflwyno yn y modd ry chi'n dymuno fydde er mwyn awgrymu bod na rywbeth gwleidyddol yn ei sylwadau, yn hytrach na'i farn bersonol. Bydde hynny'n medru bod yn enllibus ohonno fe a Llywydd y Cynulliad, drwy arwain gwylwyr i amau eu cymhellion. Rwy'n deall eich bod chi wedi gwneud y cyhuddiad hynny yn gyhoeddus bellach drwy roi eich llythyr o gwyn atom ni, ar wefan Y Byd.

Roeddem ni yn ymwybodol o sefyllfa bresennol y ddau. Ond fe wnaethpwyd penderfyniad i beidio a chynnwys hynny yn y rhaglen, yn rhannol oherwydd nad oedd yn gwbwl berthnasol i'w cyfraniadau, ond yn bennaf oherwydd y perygl o'u difenwi.

Er nad y'ch chi' n dweud hynny'n blwmp ac yn blaen, yr argraff mae rhywun yn cael wrth ddarllen eich cwyn yw eich bod chi'n amau cynllwyn rhwng Marc Jones a Phlaid Cymru, ac Aled Eirug a Llwydd y Cynulliad er mwyn cyflwyno safbwynt arbennig ar y rhaglen. Buasai'r modd y byddech chi'n dymuno i ni gyflwyno'r ddau yn medru rhoi'r argraff i'r gwyliwr bod y ddau wedi bod yn cynllwynio, ac yn amlwg felly'n medru bod yn enllibus.

Ry ni wastad yn cyflwyno siaradwyr yn y modd mwyaf addas i gyfleu eu cyfraniad i'r rhaglen. Y rheswm dros gyfweld a'r ddau yma oedd eu profiad blaenorol yn y maes. Marc Jones yn un o'r ychydig newyddiadurwyr Cymraeg eu hiaith sydd wedi gweithio ar sawl papur newydd dyddiol, ac Aled Eirug yn gyn-bennaeth newyddion BBC Cymru, a hynny ar adeg lawnsio gwefan Cymry'r Byd.

Nid plesio chi, na phlesio'r cyfranwyr oedd y nod wrth eu cyflwyno. Ond yn hytrach cyfleu'n deg i'r gwylwyr pa gymwysterau oedd ganddynt i leisio barn ar y pwnc dan sylw. Rwy'n gwbwl fodlon ein bod ni wedi cyflawni'r nod hynny y tro yma.

Yn gywir,

Geraint Evans, Golygydd Materion Cyfoes Cymraeg, ITV Cymru.